Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Ymgynghoriad – Diwygio'r Safonau Rheoleiddio o fewn y *Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd wedi'u Cofrestru yng Nghymru*

Dyddiad cyhoeddi: 22 Ionawr 2025
Camau i'w cymryd: 07 Mawrth 2025

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn am y newidiadau arfaethedig i'r Safonau Rheoliadol sy'n cael eu cynnig i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben yn dilyn adolygu'r Model Asesu Rheoleiddiol. |
| **Sut i ymateb** | Cewch gyflwyno eich atebion mewn nifer o ffyrdd.<br><br>E-bost: HousingRegulation@gov.wales<br><br>Drwy'r post: Tîm Rheoleiddio Tai<br>Rheoleiddio a Strategaeth Tai<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>Ymatebwch yr ymgynghoriad hwn erbyn 5.00pm ar Dydd Gwener 07 Mawrth 2025. Wrth ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli barn sefydliad. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.** |
| **Manylion cysylltu** | Tîm Rheoleiddio Tai<br>Rheoleiddio a Strategaeth Tai<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>E-bost: HousingRegulation@gov.wales |

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd rheolydd data ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru ac unrhyw ddata personol y byddwch yn eu darparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon dros brosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru (Erthygl 6(1)(e)).

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Yn achos ymgynghoriadau ar y cyd, mae'n bosibl y bydd hyn hefyd yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (ee sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract y gwneir unrhyw waith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw neu'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech fod yn ymwybodol hefyd o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth ac y gallai Llywodraeth Cymru fod o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi yn yr ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau hynny a gyhoeddir yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a ddelir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na 3 blynedd.

## Eich hawliau

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl wneud y canlynol:

- i gael gwybod am y data personol sy'n cael eu cadw amdanoch chi, a'u gweld
- i fynnu ein bod yn cywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data (o dan rai amgylchiadau)
- i ofyn i'ch data gael eu 'dileu' (o dan rai amgylchiadau)
- i gludadwyedd y data (o dan rai amgylchiadau)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddi-enw, rhowch wybod hynny i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a sut mae'n cael ei defnyddio, neu er mwyn arfer eich hawliau o dan y GDPR, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost:
**DataProtectionOfficer@gov.wales**

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

**Cefndir a Chyd-destun**

1. Cyhoeddir y Safonau Rheoliadol yn *Fframwaith Rheoleiddio Cymdeithasau Tai sydd wedi'u Cofrestru yng Nghymru* (y Fframwaith Rheoleiddio). Mae'r fframwaith wedi bod ar waith ers mis Ionawr 2022 ac mae'n ymdrin â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs) yng Nghymru.

2. Mae'n gyfnod o ddatblygu arwyddocaol yn y maes rheoleiddio tai cymdeithasol ar hyn o bryd wrth i'r sector cymdeithasau tai ymateb i newidiadau yn yr amgylchedd gweithredu ac economaidd ers y pandemig. Mae'r amgylchedd hwnnw yn ddiweddar wedi tyfu hyd yn oed yn fwy heriol.

3. Felly mae'r angen am fwy o oruchwyliaeth a monitro trwy reoliadau ar drefniadau llywodraethu a hyfywedd ariannol wedi dod yn bwysicach fyth wrth i sefydliadau wneud penderfyniadau anodd ynghylch buddsoddi yn y stoc sydd ganddynt a datblygiadau newydd a sut y byddant yn parhau i gyflawni er lles tenantiaid a chymunedau.

4. Mae Gweinidogion Cymru yn ymgynghori ar ddiwygiadau i'r Safonau Rheoliadol a gyhoeddir yn y Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd wedi'u Cofrestru yng Nghymru. Mae'r diwygiadau arfaethedig yn deillio o adolygiad o'r model rheoleiddio a ddefnyddir gan y tîm rheoleiddio i asesu a ydyn nhw'n cydymffurfio â'r safonau yn unol â'r rheoliadau.

5. Bwriad y diwygiadau a gynigir i'r safonau rheoleiddio yw sicrhau eu bod yn parhau'n addas i'r diben, eu gwneud yn gliriach, cael gwared ar ddyblygu a symleiddio'r ffyrdd y dangosir ac yr asesir cydymffurfiaeth.

6. Fel rhan o'r broses o adolygu a datblygu'r diwygiadau hyn, rydym wedi siarad â thenantiaid a rhanddeiliaid allweddol eraill drwy weithdai. Mae'r Grŵp Cynghori ar Reoleiddio wedi ystyried ffurf ddrafft y safonau diwygiedig sy'n cael eu cynnig ac rydym nawr yn ymgynghori'n ffurfiol arnynt i benderfynu ar y safonau terfynol.

**Safonau Rheoliadol Diwygiedig**

7. Y Safonau Rheoliadol yw'r safonau y mae gofyn i landlordiaid gydymffurfio â nhw. Wrth ddod i farn ar sail y rheoliadau, bydd y rheoleiddiwr yn asesu i ba raddau y gall yr RSL ddangos ei fod yn bodloni'r safonau.

8. Mae'r Safonau Rheoliadol presennol a'r Safonau Rheoliadol diwygiedig arfaethedig wedi'u nodi yn y tabl isod. Y bwriad yw cyhoeddi canllawiau cysylltiedig ar wahân.

Safonau Rheoliadol presennol a'r Safonau Rheoliadol drafft diwygiedig

| CYF | SAFONAU RHEOLIADOL PRESENNOL | CYF | SAFONAU RHEOLIADOL DIWYGIEDIG |
|---|---|---|---|
| **RS1** | **Mae gan y sefydliad drefniadau arwain a llywodraethu strategol effeithiol sy'n ei alluogi i gyflawni ei ddiben a bodloni ei amcanion** | **RS1** | **Mae gan y sefydliad drefniadau arwain a llywodraethu strategol effeithiol sy'n ei alluogi i gyflawni ei ddiben a bodloni ei amcanion** |
| a) | Mae ganddo strategaeth sy'n adlewyrchu ei weledigaeth, ei ddiwylliant a'i werthoedd ac sy'n nodi sut y bydd y sefydliad yn cyflawni ei ddiben craidd fel landlord cymdeithasol | a) | Mae ganddo strategaeth sy'n adlewyrchu ei weledigaeth, ei ddiwylliant a'i werthoedd ac sy'n nodi sut y bydd y sefydliad yn cyflawni ei ddiben craidd fel landlord cymdeithasol |
| b) | Mae'n cydymffurfio â'i ddogfennau llywodraethu ei hun ac yn bodloni gofynion Cod Llywodraethu priodol | b) | Mae'n cydymffurfio â'i ddogfennau llywodraethu ei hun ac yn bodloni gofynion Cod Llywodraethu priodol |
| c) | Mae’n pennu ymrwymiadau mesuradwy sy'n seiliedig ar dystiolaeth ym mhob un o'i feysydd busnes mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (gan gynnwys materion gwrth-hiliaeth a mynd i'r afael â throsedd casineb) ac yn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau y mae'n gweithio gyda nhw ac ynddynt | c) | Mae’n pennu ymrwymiadau mesuradwy sy'n seiliedig ar dystiolaeth ym mhob un o'i feysydd busnes mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (gan gynnwys materion gwrth-hiliaeth a mynd i'r afael â throsedd casineb) |
| d) | Mae ganddo Fwrdd amrywiol sy’n adlewyrchu'r cymunedau y mae'r RSL yn gweithio gyda nhw ac ynddynt, ac sy'n meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i fod yn effeithiol | d) | Mae ganddo Fwrdd amrywiol sy’n adlewyrchu'r cymunedau y mae'r RSL yn gweithio gyda nhw ac ynddynt, ac sy'n meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i fod yn effeithiol |
| e) | Mae’n gwneud penderfyniadau rhesymegol yn seiliedig ar wybodaeth glir o ansawdd da sy'n cynnwys asesu risg a, lle y bo'n briodol, barn tenantiaid | e) | Mae’n gwneud penderfyniadau rhesymegol yn seiliedig ar wybodaeth glir o ansawdd da sy'n cynnwys asesu risg ac mae’n gofyn am gadarnhad o ansawdd y data sy'n sail i adroddiadau'r Bwrdd |
| f) | Mae’n galluogi tenantiaid i ddylanwadu ar benderfyniadau strategol | f) | Gall ddangos y gwahaniaeth y mae cyfranogiad ac adborth tenantiaid yn ei wneud i benderfyniadau strategol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| g) | Mae'n cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth, gofynion rheoleiddio a chanllawiau statudol perthnasol ac yn cyfathrebu'n amserol â'r rheoleiddiwr, gan gynnwys ynghylch materion perthnasol sy'n ymwneud ag achosion gwirioneddol neu bosibl o ddiffyg cydymffurfio | g) | Mae'n cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth, gofynion rheoleiddio a chanllawiau statudol perthnasol ac yn cyfathrebu'n amserol â'r rheoleiddiwr, gan gynnwys ynghylch materion perthnasol sy'n ymwneud ag achosion gwirioneddol neu bosibl o ddiffyg cydymffurfio |
| **RS2** | **Mae trefniadau cadarn ar waith i reoli risg a rhoi sicrwydd** | **RS2** | **Mae trefniadau cadarn ar waith i reoli risg a rhoi sicrwydd** |
| a) | Mae ganddo fframwaith effeithiol ar gyfer rheoli risg, rheolaethau mewnol a sicrwydd sy'n ei alluogi i nodi a rheoli risgiau presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg a allai ei atal rhag cyflawni ei strategaeth neu gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol neu reoleiddiol | a) | Mae ganddo fframwaith effeithiol ar gyfer rheoli risg, rheolaethau mewnol a sicrwydd sy'n ei alluogi i nodi a rheoli risgiau presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg a allai ei fygwth rhag cynnal ei strategaeth neu gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol neu reoleiddiol ac sy'n sicrhau nad yw asedau tai cymdeithasol yn cael eu peryglu'n ormodol. Mae hyn yn cynnwys deall a rheoli'r risgiau a berir gan is-gwmnïau |
| b) | Nid yw'n rhoi asedau tai cymdeithasol na thenantiaid mewn perygl gormodol | b) | Mae'n cynnal cynllun parhad busnes, cynllun adfer o effeithiau trychinebau a chynllun diogelwch seiber sy'n hygyrch a chyfredol. |
| c) | Mae'n cynnal cynllun parhad busnes, cynllun wrth gefn a chynllun adfer o effeithiau trychinebau hygyrch a chyfredol. | | |
| **RS3** | **Darperir gwasanaethau o ansawdd uchel i denantiaid** | **RS3** | **Darperir gwasanaethau o ansawdd uchel** |
| a) | Mae'n sicrhau bod tenantiaid yn ddiogel yn eu cartrefi ac yn nodi ac yn cywiro'n brydlon unrhyw achosion o danberfformio neu ddiffyg cydymffurfio â materion iechyd a diogelwch landlordiaid | a) | Mae'n darparu gwasanaethau o ansawdd uchel gan sicrhau bod gan denantiaid lefel uchel o foddhad â nhw, gan gynnwys:<br>• Darparu gwasanaeth trwsio, cynnal a chadw ac addasu effeithiol<br>• Cymorth i gadw tenantiaethau<br>• Diogelwch personol, gan gynnwys ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol, cam-drin domestig a throseddau casineb<br>• Dyrannu cartrefi i ddiwallu anghenion am dai gan gynnwys i'r digartref |

| | | | |
|---|---|---|---|
| b) | Mae’n darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion amrywiol tenantiaid | b) | Sicrhau bod gwasanaethau'n deg ac yn esgor ar ganlyniadau teg i denantiaid mewn ymateb i'w hanghenion fel unigolion |
| c) | Mae’n cyflawni ac yn cynnal lefelau uchel o foddhad â gwasanaethau ymhlith tenantiaid | c) | Mae'n sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad landlordiaid ar gael i denantiaid sy'n ddigonol iddynt allu craffu a herio |
| d) | Mae'n sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad y landlord ar gael i denantiaid | | |
| **RS4** | **Caiff tenantiaid eu grymuso a'u cefnogi i ddylanwadu ar ddyluniad gwasanaethau a'r modd y cant eu darparu** | **RS4** | **Mae diwylliant y sefydliad yn cefnogi ac yn grymuso tenantiaid i ddylanwadu ar ddyluniad gwasanaethau a'r modd y cânt eu darparu** |
| a) | Mae’n creu diwylliant sy'n gwerthfawrogi ac yn hyrwyddo cyfranogiad tenantiaid | a) | Mae ganddo fframwaith effeithiol ar gyfer cyfranogiad tenantiaid sydd wedi'i hysbysebu'n dda, yn darparu ystod o gyfleoedd i denantiaid gymryd rhan ac sy'n gallu dangos bod tenantiaid yn fodlon â'r fframwaith. |
| b) | Mae'n galluogi tenantiaid i ddeall dull y sefydliad o gynnwys tenantiaid, sut y gallant gymryd rhan a sut y bydd y sefydliad yn gwrando ar adborth gan denantiaid ac yn gweithredu arno, ac yn dysgu o gwynion. | b) | Mae'n gallu dangos y gwahaniaeth y mae cyfranogiad tenantiaid yn ei wneud i ddyluniad gwasanaethau a'r modd y cânt eu darparu, gan gynnwys gwrando ar adborth tenantiaid a dysgu gwersi o gwynion. |
| c) | Mae'n rhoi cyfleoedd i denantiaid gymryd rhan, yn gallu dangos bod tenantiaid yn fodlon arnynt ac yn gallu dangos y gwahaniaeth y mae cyfranogiad yn ei wneud | c) | Mae'n gallu dangos bod safbwyntiau a disgwyliadau amrywiol tenantiaid yn llywio'r modd y mae gwasanaethau tai a gwasanaethau cysylltiedig yn cael eu datblygu a'u hadolygu, gan gynnwys ymateb yr RSL i ddiffyg arwyddocaol yn y gwasanaeth. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| d) | Gall ddangos bod safbwyntiau a disgwyliadau amrywiol tenantiaid yn llywio'r gwaith o ddatblygu ac adolygu gwasanaethau tai a gwasanaethau cysylltiedig, a'r ymateb i unrhyw achosion o danberfformio. | | |
| **RS5** | **Mae rhenti a thaliadau gwasanaeth yn fforddiadwy i denantiaid presennol a darpar denantiaid** | **RS5** | **Mae rhenti a thaliadau gwasanaeth yn fforddiadwy i denantiaid presennol a darpar denantiaid** |
| a) | Mae'n sicrhau y cydymffurfir â'r holl reolau a chanllawiau statudol perthnasol (gan gynnwys y cytundeb rhent presennol) | a) | Sicrhau cydymffurfir â'r holl reolau, canllawiau statudol ac unrhyw gytundebau sector atodol perthnasol yn llawn |
| **RS6** | **Mae gan y sefydliad ddull strategol o ymdrin â gwerth am arian sy'n llywio ei holl gynlluniau a gweithgareddau** | **RS6** | **Mae gan y sefydliad ddull strategol o ymdrin â gwerth am arian sy'n llywio ei holl gynlluniau a gweithgareddau** |
| a) | Mae’n pennu ei ddull strategol o ymdrin â gwerth am arian, gan sicrhau bod y dull yn ymwneud â'i ddiben cymdeithasol, ac yn gwneud penderfyniadau strategol a gweithredol yn unol ag ef | a) | Mae'n pennu ei ddull strategol o ymdrin â gwerth am arian a gall ddangos ei fod yn sicrhau gwerth am arian wrth gyflawni ei strategaeth a'i wasanaethau i randdeiliaid, gan gynnwys tenantiaid |
| b) | Gall ddangos i randdeiliaid, gan gynnwys tenantiaid, ei fod yn sicrhau gwerth am arian wrth gyflawni ei strategaeth a darparu ei wasanaethau. | | |
| **RS7** | **Mae’r cynllunio a’r rheolaeth ariannol yn gadarn ac yn effeithiol** | **RS7** | **Mae’r cynllunio a’r rheolaeth ariannol yn gadarn ac yn effeithiol** |
| a) | Mae’n gosod cynlluniau ariannol sy'n ei alluogi i gyflawni ei strategaeth a'i ddiben cymdeithasol, ac yn cyflwyno adroddiadau priodol i'r Bwrdd ynghylch y cynlluniau hyn | a) | Mae’n gosod cynlluniau ariannol sy'n ei alluogi i gyflawni ei strategaeth a'i ddiben cymdeithasol, ac yn cyflwyno adroddiadau priodol i'r Bwrdd ynghylch y cynlluniau hyn |
| b) | Mae’n ariannol hyfyw yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy, ac mae'n sicrhau bod digon o gyllid a hylifedd i gefnogi hyn | b) | Mae’n ariannol hyfyw yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy, ac mae'n sicrhau bod digon o gyllid a hylifedd i gefnogi hyn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| c) | Mae'n monitro pob cyfamod y mae wedi cytuno arno â chyllidwyr, yn adrodd arno ac yn cydymffurfio ag ef | c) | Mae'n monitro pob cyfamod y mae wedi cytuno arno â chyllidwyr, yn adrodd arno ac yn cydymffurfio ag ef |
| d) | Mae'n nodi risgiau i gyflawni cynlluniau ariannol ac yn eu rheoli'n effeithiol, gan gynnwys cynnal profion straen priodol, cynllunio senarios a defnyddio trothwyon mewnol | d) | Mae'n nodi risgiau i gyflawni cynlluniau ariannol ac yn eu rheoli'n effeithiol, gan gynnwys cynnal profion straen priodol, cynllunio senarios a defnyddio trothwyon mewnol |
| e) | Mae ganddo strategaeth rheoli trysorlys a phrosesau cysylltiedig effeithiol | e) | Mae ganddo strategaeth rheoli trysorlys a phrosesau cysylltiedig effeithiol |
| **RS8** | **Mae'r asedau a rhwymedigaethau yn cael eu rheoli'n dda** | **RS8** | **Mae'r asedau a rhwymedigaethau yn cael eu rheoli'n dda** |
| a) | Mae ganddo ddealltwriaeth gywir a chyfredol o'i asedau a'i rwymedigaethau | a) | Mae ganddo gofrestr gywir a chyfredol o'i asedau a'i rwymedigaethau ac mae'n ei defnyddio i lywio penderfyniadau strategol ac ariannol |
| b) | Mae’n gwneud y defnydd gorau o asedau i gyflawni ei ddiben cymdeithasol a bodloni amcanion y sefydliad | b) | Mae'n gwneud y defnydd gorau o asedau i gyflawni ei ddiben cymdeithasol a bodloni amcanion y sefydliad gan gynnwys deall perfformiad asedau cymdeithasol ac ariannol. |
| c) | Mae’n defnyddio gwybodaeth gywir am asedau a rhwymedigaethau i lywio penderfyniadau strategol ac ariannol. | | |
| **RS9** | **Mae'r sefydliad yn darparu llety o ansawdd uchel** | **RS9** | **Mae'r sefydliad yn darparu llety diogel o ansawdd uchel** |
| a) | Mae’n sicrhau bod cartrefi a ariennir yn gyhoeddus yn cydymffurfio â'r holl safonau, rheolau a chanllawiau statudol perthnasol a gyhoeddir mewn perthynas ag ansawdd llety, gan gynnwys y Safon Ansawdd Tai Cymru gyfredol | a) | Mae’n sicrhau bod cartrefi a ariennir yn gyhoeddus yn cydymffurfio â'r holl ddeddfau, safonau, rheolau a chanllawiau statudol perthnasol a gyhoeddir mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch a'r Safon Ansawdd Tai Cymru gyfredol. Dylai hyn gynnwys:<br>• Cadw data cyflawn a chywir am gyflwr y stoc<br>• Llunio cynlluniau buddsoddi mewn ymateb i dargedau cynaliadwyedd yr amgylchedd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | b) | Mae'n cadw tenantiaid yn ddiogel yn eu cartrefi ac yn nodi ac yn cywiro'n brydlon unrhyw achosion o danberfformio neu ddiffyg cydymffurfio â holl ofynion iechyd a diogelwch landlordiaid |

<table>
<tr><td rowspan="2">C1. A ydych yn cytuno bod y diwygiadau i'r Safonau Rheoleiddio yn eu gwneud yn gliriach?</td><td colspan="2">Ticiwch</td></tr>
<tr><td>Ydw</td><td>Nac ydw</td></tr>
<tr><td colspan="3">Nodwch yma unrhyw sylwadau y gallai fod gennych i esbonio'ch ateb a hefyd unrhyw sylwadau eraill a allai fod gennych am y safonau:</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td rowspan="2">C2. A ydych yn cytuno bod y Safonau Rheoleiddio diwygiedig yn cael gwared ar y dyblygu yn y Safonau Rheoleiddio presennol?</td><td colspan="2">Ticiwch</td></tr>
<tr><td>Ydw</td><td>Nac ydw</td></tr>
<tr><td colspan="3">Ychwanegwch yma unrhyw sylwadau a all fod gennych i esbonio’ch ateb:</td></tr>
</table>

| **C3.** A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am y **Safonau Rheoleiddio diwygiedig?** | | |
|---|---|---|
| | | |
| | | |

## Ffurflen Ymateb i’r Ymgynghoriad

**Ffurflen Ymateb i’r Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw’n berthnasol):

Ai landlord ydych chi?

Ai tenant ydych chi?

Arall?

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Mae'n bosibl y caiff ymatebion i ymgynghoriadau eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch y blwch ☐